14 Mawrth 2024
SB 8/2024


# Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion, Awst 2022 hyd at Orffennaf 2023

Mae ystadegau ar addysg bellach ac adrannau chweched dosbarth yn yr adroddiadau ar fesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16.

Ni chynhyrchwyd y mesurau perfformiad safonol ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21 oherwydd y pandemig. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y nodiadau. Yn hytrach, cynhyrchwyd adroddiadau arbennig ynghylch Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19).

**Ffigur 1.1: Cyfradd lwyddiant prentisiaethau yn ôl blwyddyn academaidd**

Ni chynhyrchwyd mesurau ar gyfer 2019/20 na 2020/21.





Disgrifiad o Ffigur 1.1: Siart linell yn dangos cynnydd o 5 pwynt canran yng nghyfradd lwyddiant prentisiaethau yn 2022/23.

Llwyddiant prentisiaethau fesul lefel a blwyddyn ar StatsCymru

**Ffigur 1.2: Cyfradd lwyddiant dysgu oedolion fesul blwyddyn academaidd**

Ni chynhyrchwyd mesurau ar gyfer 2019/20 na 2020/21.




Disgrifiad o Ffigur 1.2: Siart llinell yn dangos cynnydd o 3 phwynt canran yng nghyfradd lwyddiant cyrsiau dysgu oedolion yn 2022/23.

Cwblhad a llwyddiant gweithgareddau dysgu oedolion fesul blwyddyn ar StatsCymru

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am lwyddiant a chwblhau prentisiaethau a chyrsiau dysgu oedolion (a ddarperir gan awdurdodau lleol neu Sefydliadau Addysg Bellach).

Mae'r ystadegau'n cael eu dadansoddi yn ôl y math o gymhwyster, demograffeg, ac ardal.

Daw'r holl ffigurau o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

## Yn y datganiad hwn

Pwyntiau allweddol 2
Prentisiaethau 3
Dysgu Oedolion 12
Geirfa 17
Nodiadau 19
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd 22

Ystadegydd: Catherine Singleton ~ 0300 025 1744 ~ ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd: 0300 025 5050 X: @YstadegauCymru

# 1. Pwyntiau allweddol

## Prentisiaethau

- Roedd cyfradd lwyddiant prentisiaethau yn 72% yn 2022/23. Mae hyn yn gynnydd o 5 pwynt canran o'i gymharu â 2021/22 ond yn is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.
- Y gyfradd lwyddiant ar gyfer prentisiaethau lefel sylfaen a ddangosodd yr adferiad cryfaf, gan gynyddu o 61% i 72%.
- Ni chafwyd adferiad yn y gyfradd lwyddiant ar gyfer prentisiaethau uwch.
- Yr hyn a oedd wrth wraidd y diffyg cynnydd yng nghyfradd lwyddiant y prentisiaethau uwch oedd gostyngiad o 8% yn y gyfradd lwyddiant ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, a oedd yn gwrthbwyso cynnydd o 5% ar draws meysydd pwnc eraill.
- Roedd cynnydd mawr yn y gyfradd lwyddiant gyffredinol yn 2022/23 o'i gymharu â 2021/22 ym meysydd pwnc Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, a'r sector Gwallt a Harddwch.
- Roedd dysgwyr a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn yr ysgol uwchradd 9 pwynt canran yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus yn eu prentisiaethau o'u cymharu â dysgwyr nad oeddent yn gymwys.
- Roedd cyfraddau llwyddiant rhwng gwahanol feysydd pwnc sectorau'n amrywio o 63% ar gyfer Lletygarwch ac Arlwyo i 87% ar gyfer y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi. Mae amrywioldeb cyfraddau llwyddiant rhwng gwahanol feysydd pwnc sectorau'n parhau i fod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

## Dysgu oedolion

- Roedd cyfradd llwyddiant cyrsiau dysgu oedolion yn 84% 2022/23, cynnydd o 3 phwynt canran o gymharu â 2021/22.
- Roedd cynnydd o 45% yn nifer y gweithgareddau dysgu asesadwy a ddarparwyd yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol yn 2022/23 o'i gymharu â 2021/22, tra bod cyfradd llwyddiant y gweithgareddau hyn wedi gostwng 3%.
- Addysg a Hyfforddiant, Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill a Gwyddoniaeth a Mathemateg welodd y cynnydd mwyaf yn eu cyfraddau llwyddiant yn 2022/23 o'i gymharu â 2021/22.

## 2. Prentisiaethau

Mae gan brentisiaethau dair haen:

- Prentisiaethau Sylfaen – Lefel 2 (sy'n cyfateb i TGAU gradd A* i C)
- Prentisiaethau Lefel 3 (sy'n cyfateb i Safon Uwch)
- Prentisiaethau Uwch – Lefel 4 ac uwch


### Deilliannau prentisiaethau

Mae rhaid i ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth ennill amrywiaeth o gymwysterau i gyflawni eu prentisiaeth. Y gyfradd lwyddiant yw canran y rhai sy'n gadael prentisiaethau wedi cyflawni'r fframwaith prentisiaeth cyfan.

Roedd gostyngiad yn nifer y prentisiaid rhwng 2018/19 a 2021/22 gydag adferiad rhannol yn 2022/23. Dyma gyd-destun y dylid ei gadw mewn cof wrth ystyried y newid mewn deilliannau, gan y gallai cyfansoddiad y prentisiaethau a ddilynwyd fod wedi newid.

**Ffigur 2.1: Cyfradd lwyddiant prentisiaethau fesul lefel a blwyddyn academaidd, o Awst 2017 hyd at Orffennaf 2023**

Ni chynhyrchwyd mesurau ar gyfer 2019/20 a 2020/21, gweler y nodiadau.




Disgrifiad o Ffigur 2.1: Siart linell sy'n dangos cynnydd yng nghyfraddau llwyddiant prentisiaethau sylfaen a lefel 3 a dim newid ynddynt ar gyfer prentisiaethau uwch yn 2022/23, yn dilyn cwymp mewn cyfraddau llwyddiant ar gyfer pob lefel o brentisiaeth rhwng 2018/19 a 2021/22.

Llwyddiant prentisiaethau fesul lefel a blwyddyn ar StatsCymru


Prentisiaethau Sylfaen a ddioddefodd y gostyngiad mwyaf yn eu cyfraddau llwyddiant rhwng 2018/19 a 2021/22 ond y rhain welodd yr adferiad mwyaf yn 2022/23, gyda chynnydd o 10 pwynt canran i 72%. Bu

cynnydd o 3 pwynt canran yng nghyfraddau llwyddiant prentisiaethau lefel 3 i 74% tra bod prentisiaethau uwch wedi aros yn 67%.

Mae cyfraddau llwyddiant prentisiaethau ar bob lefel yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Cafwyd cynnydd o 3% yn nifer yr holl brentisiaethau a ddaeth i ben yn 2022/23 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae hynny'n dal yn llawer is na'r lefelau cyn y pandemig, sef 28% yn is nag yn 2018/19. Roedd prentisiaethau sylfaen yn cyfrif am bron y cwbl o'r cynnydd, gyda nifer y prentisiaethau uwch yn gostwng o'i gymharu â 2021/22.

**Ffigur 2.2: Cyfradd lwyddiant prentisiaethau yn ôl maes pwnc sector a blwyddyn academaidd, Awst 2018 hyd at Orffennaf 2023**




Disgrifiad o Ffigur 2.2: Siart far yn dangos mai'r Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi oedd y sector â'r gyfradd lwyddiant uchaf yn 2022/23 (87%), gyda Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (86%) y nesaf wedyn.

[Nodyn 1] Mae rhai categorïau â niferoedd isel iawn wedi'u hepgor er mwyn osgoi datgelu.

Llwyddiant mewn prentisiaethau, yn ôl blwyddyn academaidd a maes pwnc y sector ar StatsCymru

Y meysydd pwnc sector a ddangosodd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd lwyddiant o'u cymharu â 2021/22 oedd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Gwallt a Harddwch, ill dau gyda chynnydd o 12 pwynt canran, ac yna Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal gyda chynnydd o 9 pwynt canran. Roedd y rhain yn feysydd pwnc sector a welodd ostyngiad mawr yn eu cyfraddau llwyddiant rhwng 2018/19 a 2021/22 ac mae'r cyfraddau llwyddiant yn parhau i fod yn is na chyn y pandemig.

Manwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid welodd y gostyngiad mwyaf o ran cyfradd lwyddiant gyda gostyngiad o 10 pwynt canran o'i gymharu â'r llynedd pan oedd â'r gyfradd lwyddiant uchaf.

Lletygarwch ac Arlwyo oedd â'r gyfradd lwyddiant isaf, sef 63%. Roedd yr amrywiad mewn cyfraddau llwyddiant rhwng gwahanol feysydd pwnc sectorau yn is yn 2022/23 nag yn 2021/22 ond mae'n parhau i fod yn uwch nag yn 2018/19.


Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal oedd yn bennaf gyfrifol am y ffaith bod cyfraddau llwyddiant ar gyfer prentisiaethau uwch wedi aros yn eu hunfan. Roedd Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i gyfrif am 59% o'r holl brentisiaethau lefel uwch yn 2022/23 a gwelwyd cynnydd o 2 bwynt canran yn y cyfraddau llwyddiant o'i gymharu â 2021/22. Roedd Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal i gyfrif am 30% arall ac roedd gan y sector gyfradd lwyddiant o 53%, cwymp o 8 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn gynt.

O ran prentisiaethau lefel sylfaen, Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal Cymdeithasol oedd y maes pwnc sector mwyaf poblogaidd gan gyfrif am 41% o'r holl rai a gwblhaodd brentisiaeth. Cynyddodd cyfradd lwyddiant prentisiaethau sylfaen ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal Cymdeithasol 15 pwynt canran i 65% yn 2022/23.

Roedd Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal Cymdeithasol i gyfrif am 40% o brentisiaethau lefel 3. Gwelodd y prentisiaethau hyn gynnydd o 8% yn eu cyfradd lwyddiant o'i gymharu â 2021/22.

Yn 2021/22, roedd rhywfaint o dystiolaeth y gallai costau byw fod yn gyfrifol am gyfraddau llwyddiant isel. Ymchwiliwyd i hyn yn yr erthygl Canlyniadau prentisiaethau yn ôl enillion:Awst 2021 hyd at Orffennaf 2022. Fodd bynnag, gwelodd dau faes a chanddynt ganrannau uchel o brentisiaethau gydag enillion isel yn 2021/22 (Gwallt a Harddwch ac Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal) adferiad sylweddol yn 2022/23. Nid oeddem yn gallu diweddaru'r dadansoddiad enillion ar gyfer y cyhoeddiad hwn.

**Ffigur 2.3: Cyfradd lwyddiant prentisiaethau yn ôl oedran wrth ddechrau'r brentisiaeth, Awst 2018 hyd at Orffennaf 2023**





Disgrifiad o Ffigur 2.3: Siart far yn dangos bod y gyfradd lwyddiant wedi cynyddu ar draws grwpiau oedran yn 2022/23 o'i gymharu â 2021/22 ond serch hynny bod pob grŵp yn parhau i fod ar lefel is nag a welwyd cyn y pandemig. Roedd y cynnydd mwyaf ymhlith pobl ifanc 20 i 24 oed (9 pwynt canran). [Nodyn (r)] Mae cyfradd lwyddiant pobl 50 i 64 oed ar gyfer 2021/22 wedi cael ei diwygio i 64%. Yn fersiwn y llynedd o'r adroddiad hwn fe'i dangoswyd yn anghywir fel 68%.

Llwyddiant prentisiaethau yn ôl oedran a blwyddyn ar StatsCymru

Prentisiaid a ddechreuodd eu prentisiaethau'n 19 oed oedd â'r gyfradd lwyddiant uchaf (76%) yn 2022/23, a phobl 50 i 64 oed oedd â'r gyfradd isaf (64%).

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd lwyddiant o'i gymharu â 2021/22 gan y rhai oedd o dan 25 oed ar ddechrau eu prentisiaeth. Roedd 60% o ddysgwyr ar brentisiaethau sylfaen yn y grŵp oedran hwn. Dim ond 16% o'r dysgwyr a oedd yn ymgymryd â phrentisiaethau uwch oedd o dan 25 oed.

**Ffigur 2.4: Cyfradd lwyddiant prentisiaethau yn ôl a oedd y dysgwr wedi bod yn gymwys erioed i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYD) yn yr ysgol uwchradd, yn y blynyddoedd academaidd Awst 2016 hyd at Orffennaf 2023.**




Disgrifiad o Ffigur 2.4: Siart linell sy'n dangos bod dysgwyr nad oeddent erioed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus yn eu prentisiaethau na'r rhai yr oedd yn hysbys iddynt fod yn gymwys rywbryd pan oeddent yn yr ysgol uwchradd. Mae'r bwlch wedi ehangu ers y pandemig (COVID-19).

[Nodyn 1] Mae cymhwystra ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim yn cael ei gyfrifo drwy baru dysgwyr â'u cofnod yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) drwy'r Set Ddata Addysg wedi'i Pharu (MED). Ni ellir paru pob dysgwr, er enghraifft, dysgwyr a aethant i ysgol uwchradd y tu allan i Gymru neu cyn 2010/11 (blwyddyn gyntaf y cofnodion yn MED).

Tabl 1.4 yn y daenlen gysylltiedig


Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn cael budd-daliadau / taliadau cymorth penodol, neu os ydynt ar gredyd cynhwysol.

Mae'r adroddiad Defnyddio hanes unigolion o ran prydau ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd mewn perthynas â deilliannau prentisiaethau a chyfleoedd dysgu oedolion. Awst 2021 i Orffennaf 2022 yn edrych yn fanylach ar y cysylltiad rhwng cyfraddau llwyddiant prentisiaethau a chymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Roedd gan brentisiaid na fu erioed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim gyfradd lwyddiant o 74% yn 2022/23 tra bod gan y rhai a oedd wedi bod yn gymwys gyfradd lwyddiant o 65%. Gwellodd y cyfraddau llwyddiant ar gyfer y ddau grŵp o'i gymharu â 2021/22 ond gwellodd fwy i'r rhai a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gostyngodd y bwlch o 13 i 9 pwynt canran. Mae hyn yn dal i fod yn fwy na dwywaith y bwlch cyn y pandemig yn 2018/19.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2019 (MALIC) yn dangos bod gan ddysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig gyfraddau llwyddiant is na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig. Roedd gwahaniaeth o 8 pwynt canran yn y gyfradd lwyddiant rhwng y rhai a oedd yn byw mewn ardal sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig a'r rhai o'r ardaloedd ymhlith y 10% lleiaf difreintiedig yn 2022/23.

**Ffigur 2.5: Cyfradd lwyddiant prentisiaethau yn ôl cefndir ethnig manwl a blwyddyn academaidd, Awst 2018 hyd at Orffennaf 2023**




Disgrifiad o Ffigur 2.5: Siart far yn dangos bod y gyfradd lwyddiant wedi codi ar draws y rhan fwyaf o grwpiau yn 2022/23 ond wedi cwympo i rai. Y grwpiau a welodd y cynnydd mwyaf oedd y rhai â'u hethnigrwydd yn anhysbys neu heb ei roi, Unrhyw Gefndir Cymysg neu Amlethnig Arall ac Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall. Y grwpiau a welodd y gostyngiadau mwyaf mewn cyfraddau llwyddiant oedd Gwyn a Du Caribïaidd ac yna Unrhyw Grŵp Ethnig Arall a Phacistanaidd.


[Nodyn 1] Mae rhai categorïau â niferoedd isel iawn wedi'u hepgor er mwyn osgoi datgelu.

Tabl 1.2 yn y daenlen gysylltiedig

Dysgwyr o Unrhyw Gefndir Cymysg neu Amlethnig Arall oedd â'r gyfradd lwyddiant uchaf (82%) yn 2022/23 ac yna Gwyn Anhysbys (81%). Gwelwyd y cyfraddau llwyddiant isaf gan Gwyn a Du Caribïaidd (55%) ac yna Unrhyw Gefndir Du Arall, Du Cymreig, Du Prydeinig neu Garibïaidd; a Phacistanaidd (y ddau yn 58%).

Mae llai o amrywiaeth ymhlith dysgwyr ar brentisiaethau nag yn y boblogaeth gyffredinol. Yn 2022/23, roedd 95% o'r rhai sy'n gadael prentisiaethau yn y categori 'Gwyn' eang gyda charfannau cymharol fach yn y categorïau eraill. Oherwydd y niferoedd bach, dylid cymryd gofal wrth gymharu cyfraddau llwyddiant ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol rhwng blynyddoedd academaidd.

**Ffigur 2.6: Rhesymau dros adael prentisiaeth heb ei chwblhau fesul lefel, Awst 2022 hyd at Orffennaf 2023**




Disgrifiad o Ffigur 2.6: Siart far yn dangos mai 'methiant' oedd y rheswm a roddwyd dros adael yn achos y rhan fwyaf o ddysgwyr nad oeddent wedi cwblhau eu prentisiaethau.

Tabl 1.3 yn y daenlen gysylltiedig

O'r dysgwyr nad oeddent wedi cwblhau eu prentisiaeth uwch, methiant oedd y rheswm mewn 62% o’r achosion, y rheswm mwyaf cyffredin nesaf oedd 'rhesymau personol' (15%). Mae hyn yn cyferbynnu â phrentisiaethau lefel 3 a sylfaen. Yn achos y rhain, yr ail reswm mwyaf cyffredin am beidio â chwblhau, ar ôl methiant, oedd 'mynd i swydd'. Dim ond 9% o brentisiaid uwch na gwblhaodd eu prentisiaeth a adawodd i fynd i swydd arall. Fodd bynnag, mae hyn yn fwy na dwywaith y gyfran a adawodd i fynd i swydd yn 2018/19, cyn y pandemig.

Gadawodd 16% o brentisiaid sylfaen a 17% o brentisiaid lefel 3 nad oeddent wedi cwblhau eu prentisiaeth i fynd i swydd yn 2022/23. Mae hyn yn cymharu ag 11% a 10% yn eu trefn yn 2018-19.

## Dysgu oedolion


Mae gweithgareddau dysgu oedolion fel arfer wedi'u hanelu at bobl nad ydynt wedi astudio ers cryn amser. Maent yn cael eu cynnig mewn canolfannau cymunedol a rhai colegau. Gall dysgwyr ennill amrywiaeth o gymwysterau ar wahanol lefelau gan ddibynnu ar beth y maent yn ei astudio.

Mae rhai o'r ffigurau ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 wedi'u diwygio. Mae newidiadau wedi'u marcio â (r).

Gostyngodd nifer y gweithgareddau dysgu oedolion a ddechreuwyd yn ystod y pandemig ac mae'n parhau i fod islaw'r lefelau cyn y pandemig. Cwblhawyd 34% (r) yn llai o weithgareddau yn 2021/22 nag yn 2018/19. Yn 2022/23 gwelwyd adferiad rhannol, roedd nifer y gweithgareddau dysgu a wblhawyd 17% yn is nag yn 2018/19. Mae'n bwysig cofio hyn wrth wneud cymariaethau gan y gallai cydbwysedd y gweithgareddau a gymerwyd fod wedi newid.

**Ffigur 3.1: Cyfraddau cwblhau a llwyddiant gweithgareddau dysgu oedolion fesul blwyddyn academaidd, Awst 2016 hyd at Orffennaf 2023**

Ni chynhyrchwyd mesurau deilliannau ar gyfer 2019/20 a 2020/21, gweler y nodiadau.





Disgrifiad o Ffigur 3.1: Graff llinell yn dangos y newid mewn cyfraddau cwblhau a llwyddo gweithgareddau Dysgu Oedolion rhwng 2016/17 a 2022/23. Cynyddodd y gyfradd lwyddiant yn 2022/23 tra bo'r gyfradd gwblhau wedi aros yn weddol sefydlog.

[Nodyn 1] Mae gweithgareddau dysgu oedolion na ellir eu hasesu yn cael eu hepgor o gyfraddau llwyddiant, ond nid o gyfraddau cwblhau.

Cwblhad a llwyddiant gweithgareddau dysgu oedolion fesul blwyddyn ar StatsCymru

Cynyddodd cyfradd lwyddiant cyrsiau dysgu oedolion 3 phwynt canran i 84% yn 2022/23 o'i gymharu â 2021/22. Gostyngodd y gyfradd gwblhau o lai nag 1 pwynt canran dros yr un cyfnod i 94%.

**Ffigur 3.2: Cyfradd lwyddiant gweithgareddau dysgu oedolion yn ôl math y ddarpariaeth a blwyddyn academaidd, Awst 2018 hyd at Orffennaf 2023**




Disgrifiad o Ffigur 3.2: Siart far yn dangos bod cyfraddau llwyddiant wedi cynyddu ar gyfer gweithgareddau dysgu a ddarperir gan sefydliadau Addysg Bellach (AB) a chan awdurdodau lleol trwy gytundeb masnachfraint gyda Sefydliad AB yn 2022/23 o'i gymharu â 2021/22. Gostyngodd y gyfradd lwyddiant ar gyfer gweithgareddau dysgu a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

[Cwblhau a Llwyddo mewn gweithgareddau Dysgu Oedolion, yn ôl math a lefel darpariaeth ar StatsCymru]


Gweithgareddau dysgu a ddarperir yn uniongyrchol gan sefydliadau addysg bellach (AB) oedd â'r gyfradd lwyddiant uchaf yn 2022/23, sef 86%. Mae hyn yn newid o'r flwyddyn flaenorol pan oedd cyfradd lwyddiant y gweithgareddau hyn yn is na chyfradd gweithgareddau a ddarparwyd yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

Gweithgareddau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol drwy drefniadau masnachfraint gyda sefydliadau AB oedd â'r gyfradd lwyddiant isaf yn 2022/23 (79%), ac eto y rhain welodd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd lwyddiant o'i gymharu â 2021/22.

Gostyngodd y gyfradd lwyddiant ar gyfer gweithgareddau dysgu a ddarparwyd yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol o 87% yn 2021/22 i 84% yn 2022/23. Fodd bynnag, y rhain hefyd a welodd y cynnydd mwyaf yn nifer y gweithgareddau dysgu a ddechreuwyd (cynnydd o 45% mewn gweithgareddau dysgu asesadwy o'i gymharu â 2021/22). Newidiodd cydbwysedd y gweithgareddau a ddechreuwyd hefyd, gyda chynnydd yn y gyfran o'r gweithgareddau dysgu ym meysydd Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal; a Busnes Manwerthu a Masnachol. Yn y ddau faes pwnc sector hyn, gostyngodd y gyfradd lwyddiant ar gyfer gweithgareddau a ddarparwyd yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r llynedd, ond roedd yn dal i fod yn uwch na'r gyfradd ar gyfer pob math o ddarpariaeth.

O'i gymharu â darpariaeth arall, mae cydbwysedd gwahanol o weithgareddau sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol drwy drefniant masnachfraint. Roedd 66% o'r gweithgareddau asesadwy a ddarparwyd drwy drefniant masnachfraint yn rhai lefel mynediad. Roedd hyn 30 pwynt canran yn uwch na chyfran y gweithgareddau lefel mynediad a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

**Ffigur 3.3: Cyfradd lwyddiant gweithgareddau dysgu oedolion yn ôl oedran a blwyddyn academaidd, Awst 2018 hyd at Orffennaf 2023**





Disgrifiad o Ffigur 3.3: Siart far yn dangos mai pobl ifanc 20 i 24 oed a phobl 50 i 64 oed oedd â'r gyfradd lwyddiant uchaf mewn gweithgareddau dysgu oedolion yn 2022/23 (ill dau yn 85%).

[Nodyn (r)] Mae cyfradd lwyddiant pobl 50 i 64 oed ar gyfer 2021/22 wedi cael ei diwygio i 83%. Yn fersiwn y llynedd o'r adroddiad hwn fe'i dangoswyd yn anghywir fel 81%.

[Llwyddiant gweithgareddau Dysgu Oedolion yn ôl oedran a blwyddyn ar StatsCymru]

Pobl ifanc 16 i 19 oed oedd â'r gyfradd lwyddiant isaf yn 2022/23. Gwelodd y grŵp hwn hefyd y gostyngiad mwyaf yn y gyfradd lwyddiant o'i gymharu â 2021/22 gan gwympo 5 pwynt canran i 79%. Y grŵp oedran 20 i 24 oed welodd y cynnydd mwyaf yn eu cyfradd lwyddiant o'i gymharu â'r llynedd, sef cynnydd o 7 pwynt canran.

**Ffigur 3.4: Cyfradd lwyddiant gweithgareddau dysgu oedolion yn ôl cefndir ethnig a blwyddyn academaidd, Awst 2018 hyd at Orffennaf 2023**





Disgrifiad o Ffigur 3.4: Siart far yn dangos bod gan ddysgwyr o'r rhan fwyaf o gefndiroedd ethnig gyfraddau llwyddiant uwch yn 2022/23 nag yn 2021/22. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o'i gymharu â 2021/22 gan ddysgwyr â chefndir Affricanaidd ac yna gan rai o gefndiroedd Caribïaidd, a Tsieineaidd. Gwelodd Unrhyw Gefndir Cymysg neu Amlethnig Arall y gostyngiad mwyaf o ran cyfradd llwyddiant.

[Nodyn 1] Mae rhai categorïau â niferoedd isel iawn wedi'u hepgor er mwyn osgoi datgelu.

[Tabl 2.1 yn y daenlen gysylltiedig]

Dysgwyr â chefndiroedd Indiaidd oedd â'r gyfradd lwyddiant uchaf o 88% yn 2022/23. Dysgwyr â chefndiroedd Gwyn Cymysg a Du Caribïaidd oedd â'r gyfradd lwyddiant isaf o 69% er bod y gyfradd ar gyfer y grŵp hwn wedi cynyddu 7 pwynt canran o'i gymharu â 2021/22.

### Ffigur 3.5: Cyfradd lwyddiant gweithgareddau dysgu oedolion yn ôl Maes Pwnc Sector a blwyddyn academaidd, Awst 2018 hyd at Orffennaf 2023




Disgrifiad o Ffigur 3.5: Siart far yn dangos mai gweithgareddau dysgu oedolion mewn Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig oedd â'r gyfradd lwyddiant uchaf o 98% yn 2022/23. Maes Pwnc Sector Arall; a'r Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi oedd â'r cyfraddau llwyddiant isaf o 64% a 77%

yn y drefn honno. Mae'r cyfraddau llwyddiant ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd pwnc sector yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Tabl 2.2 yn y daenlen gysylltiedig


Y meysydd pwnc sector a welodd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd lwyddiant yn 2022/23 oedd Addysg a Hyfforddiant (9 pwynt canran), Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, a Gwyddoniaeth a Mathemateg (7 pwynt canran ill dau). Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y gyfradd lwyddiant o'i gymharu â 2021/22 mewn Sgiliau Byw'n Annibynnol a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (7 pwynt canran ill dau).

Y meysydd pwnc sector lle roedd deilliannau menywod yn rhagori fwyaf ar rai dynion oedd Gwyddoniaeth a Mathemateg (bwlch o 23 pwynt canran) ac Addysg a Hyfforddiant (bwlch o 10 pwynt canran). Y meysydd pwnc sector lle'r oedd cyfraddau llwyddiant dynion yn rhagori ar rai menywod oedd Unrhyw Faes Pwnc Sector Arall (bwlch o 19 y cant) a'r Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi (bwlch o 11% pwynt canran).

Parhaodd nifer y cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) i gynyddu yn 2022/23 ac erbyn hyn maent yn cyfrif am 20% o holl weithgareddau dysgu oedolion. Mae hyn dros ddwywaith yn fwy na'r gyfradd yn 2018/19. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i ffoaduriaid o Wcráin yn ffoi rhag y rhyfel yno ac yn cyrraedd Cymru o fis Chwefror 2022 ymlaen.

Y gyfradd lwyddiant ar gyfer gweithgareddau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill oedd 78% yn 2022/23, cynnydd o 7 pwynt canran o'i gymharu â 2021/22.

### Ffigur 3.6: Cyfradd lwyddiant gweithgareddau dysgu oedolion yn ôl amddifadedd cymdogaeth y cartref a blwyddyn academaidd, Awst 2018 hyd at Orffennaf 2023




Disgrifiad o Ffigur 3.5: Siart far yn dangos bod cyfradd lwyddiant is gan ddysgwyr sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig yng Nghymru na dysgwyr sy'n byw mewn cymdogaethau llai difreintiedig.

Tabl 2.1 yn y daenlen gysylltiedig

[Nodyn 1] Mae’r degraddau amddifadedd yn seiliedig ar brif fynegai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), 2019.

Mae'r siart hon wedi'i seilio ar amddifadedd yr ardal fechan y mae dysgwr yn byw ynddi. Nid yw'n seiliedig ar amddifadedd y dysgwr yn benodol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt yn ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig ac i'r gwrthwyneb.

Gwelwyd y cyfraddau llwyddiant isaf yn yr 2il a'r 3ydd degradd, a'r uchaf yn y 6ed a'r 7fed degradd yn 2022/23. Yn 2018/19 ac yn 2021/22 roedd bwlch o 5 pwynt canran rhwng dysgwyr o'r 10% mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig o ardaloedd bach. Yn 2022/23 roedd hyn wedi diflannu fwy neu lai oherwydd bod deilliannau ar gyfer y 10fed degradd wedi gostwng, ond gellir gweld y cysylltiad rhwng deilliannau ac amddifadedd o hyd. Mae'r degradd 1af yn cynrychioli'r 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd bach a'r 10fed degradd yn cynrychioli'r 10% lleiaf difreintiedig o blith yr ardaloedd bach.

Edrychodd yr adroddiad Defnyddio hanes unigolion o ran prydau ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd mewn perthynas â deilliannau prentisiaethau a chyfleoedd dysgu oedolion Awst 2021 i Orffennaf 2022 a ellid defnyddio hanes prydau ysgol am ddim fel mesur o amddifadedd ar gyfer deilliannau dysgu oedolion, ond canfu nad oedd yn hyfyw oherwydd cyfradd isel paru dysgwyr sy'n oedolion â'u cofnodion yn yr ysgol uwchradd.

## 3. Geirfa

### Blwyddyn academaidd

Y flwyddyn academaidd yw 1 Awst i 31 Gorffennaf.

### Dysgu oedolion

Cyfeirir at ddysgu oedolion hefyd fel 'Addysg Oedolion yn y Gymuned'. Mae gweithgareddau dysgu mewn dysgu oedolion fel arfer wedi'u hanelu at bobl nad ydynt wedi astudio ers cryn amser. Fe'u cynigir mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol a rhai colegau. Mae'r ystadegau yn y datganiad hwn yn cynnwys dysgu a ddarperir gan awdurdodau lleol yn uniongyrchol, dysgu a ddarperir gan awdurdodau lleol trwy gytundeb masnachfraint gyda sefydliad addysg bellach, a dysgu a ddarperir yn uniongyrchol gan sefydliadau addysg bellach.

Gall dysgwyr ennill amrywiaeth o gymwysterau ar wahanol lefelau gan ddibynnu ar beth y maent yn ei astudio.

### Oedran

Cyfrifir oedran dysgwr o 31 Awst yn y flwyddyn academaidd y gwnaethant ddechrau dysgu.

### Fframwaith prentisiaethau / prentisiaethau

Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ag astudio. Yng Nghymru bydd prentis yn dilyn fframwaith prentisiaeth cymeradwy, sy'n cynnwys set o gymwysterau gorfodol. Mae'r fframwaith yn sicrhau bod gan brentisiaid yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwysterau perthnasol.

### Cyfradd gyrhaeddiad

Y gyfradd gyrhaeddiad yw canran y gweithgareddau a gwblhawyd pan enillwyd y cymhwyster. Gweler adran Cwblhau, Cyrhaeddiad a Llwyddiant y nodiadau am ragor o wybodaeth.

### Cwblhau

Cwblhau yw nifer y gweithgareddau neu raglenni prentisiaeth sydd wedi'u cwblhau, p'un a enillwyd y cymhwyster neu gyflawnwyd y fframwaith ai peidio. Gweler adran Cwblhau, Cyrhaeddiad a Llwyddiant y nodiadau am ragor o wybodaeth.

### Gadael yn gynnar

Caiff dysgwyr eu diffinio fel dysgwyr sy'n gadael yn gynnar os ydynt:

- yn gadael eu rhaglen o fewn 8 wythnos i'w dyddiad cychwyn
- ac na wnaethant gwblhau'r rhaglen honno
- a bod hyd disgwyliedig y rhaglen yn 24 wythnos neu ragor

Mae dysgwyr sy'n gadael yn gynnar yn cael eu heithrio o fesurau o ddeilliannau dysgwyr.

### Cefndir ethnig

Cyflwynir categorïau ethnig yn ôl safonau wedi'u cysoni Swyddogaeth Dadansoddi'r Llywodraeth. Mae'r wybodaeth yn cael ei hadrodd gan y dysgwr ei hun.

## Prydau Ysgol Am Ddim

Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn derbyn budd-daliadau/taliadau cymorth penodol, neu os ydynt ar gredyd cynhwysol. Dim ond dysgwyr sydd wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'w hawdurdod lleol a gofnodir fel rhai cymwys. Yn yr adroddiad hwn, diffinnir dysgwr fel "wedi bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim ar ryw adeg" os oedd yn gymwys i'w cael ar unrhyw adeg yn ystod ei gyfnod mewn ysgol uwchradd yng Nghymru. Os nad oedd yn gymwys mewn unrhyw flwyddyn o'r ysgol uwchradd yng Nghymru fe'i disgrifir fel "erioed wedi bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim'. Mae dysgwyr na ellid eu paru â chofnod ysgol uwchradd yng Nghymru yn cael eu categoreiddio fel Cymhwystra Prydau Ysgol am Ddim yn Anhysbys.

### Cymdogaeth leol

Yr ardal fechan a elwir yn Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) sy'n cynnwys cyfeiriad y dysgwr.

### Gweithgareddau dysgu

Mae gweithgareddau dysgu yn cyfeirio at gymhwyster penodol yr astudir ar ei gyfer gan ddysgwr, er enghraifft, lefel A neu sgil hanfodol.

### Rhaglen

Mae rhaglen yn gasgliad o weithgareddau dysgu y bydd dysgwr yn eu hastudio. Er enghraifft, gall rhaglen brentisiaeth gynnwys nifer o weithgareddau dysgu ategol.

### Sector / Meysydd Pwnc Sector

Mae'r sector / meysydd pwnc yn seiliedig ar y 15 maes dysgu haen gyntaf sy'n cael eu dosbarthu gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (OfQual) ac maent yn adlewyrchu'r is-feysydd a ddefnyddir gan Estyn at ddibenion arolygu.

### Cyfradd lwyddiant

Y gyfradd lwyddiant yw'r ganran o weithgareddau neu raglenni prentisiaeth a gyflawnwyd. Gweler adran Cwblhau, Cyrhaeddiad a Llwyddiant y nodiadau am ragor o wybodaeth.

### Gwyn anhysbys (categori ethnig manwl)

Cyn 2019/20, dim ond categori "Gwyn" cyffredinol oedd ar gael i ddysgwyr â chefndir Gwyn. Cofnodwyd rhai dysgwyr yn yr adroddiad hwn o dan y system hon, ac maent wedi'u rhestru fel "Gwyn anhysbys" yn yr ystadegau hyn.

## 4. Nodiadau

Mae tablau StatsCymru a thaenlen gysylltiedig sy'n cwmpasu'r holl ddata a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Oherwydd canlyniadau'r tarfu a achoswyd gan bandemig COVID-19, penderfynwyd na fyddai Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr (LORs) ar gyfer 2021/22 yn cael eu cyhoeddi ar lefel darparwr/partneriaeth (fel yn y blynyddoedd blaenorol). Maent wedi cael eu hailgyflwyno ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 ac maent ar gael gyda'r adroddiad hwn.

### Atal mesurau perfformiad yn 2019/10 a 2020/21

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y pandemig, cynhaliwyd dysgu ar gyfer prentisiaethau ond effeithiwyd ar rai prentisiaid gan ffyrlo a diswyddo. Cynhaliwyd addysg oedolion mewn lleoliadau pan oedd rhai ar gael, ond fel arall symudwyd dysgu ar-lein. Ar gyfer y ddau fath o ddarpariaeth cafodd rhai asesiadau eu canslo, eu gohirio neu eu haddasu.

Oherwydd y newidiadau yn y ffordd y dyfarnwyd graddau yn 2020 a'r tarfu ar ddysgu a achoswyd gan y pandemig, ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru unrhyw rai o'i mesurau perfformiad arferol ar gyfer ysgolion na dysgu ôl-16 yn 2019/20 nac yn 2020/21.

Cyfrifwyd yr ystadegau gan ddefnyddio dulliau newydd i asesu sut yr effeithiwyd ar ddeilliannau dysgwyr ar gyfer pob math o ddysgu ôl-16. Roedd y rhain yn cynnwys ystadegau newydd ar hyd yr oedi wrth gwblhau dysgu ac ar ddewisiadau dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n symud i ddysgu ôl-16. Yn hytrach, adroddwyd arnynt yn yr adroddiadau Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws. Ni ddylid cymharu'r ystadegau yn adroddiadau'r pandemig â'r mesurau deilliannau dysgwyr a gyhoeddwyd yn y datganiad hwn.

### Ffynonellau data

Daw'r holl ddata yn yr adroddiad hwn o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Defnyddir y data hyn i fonitro perfformiad a deilliannau ac i lywio 'r gwaith o ddatblygu strategaethau. LLWR yw'r ffynhonnell swyddogol ar gyfer ystadegau ar ddysgwyr mewn lleoliadau dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yng Nghymru.

Mae darparwyr cyfleoedd dysgu yn cyflwyno'r data i Lywodraeth Cymru. Cânt eu casglu ar sail dreigl. Mae'r data a ddefnyddir ar gyfer ystadegau swyddogol yn cael eu casglu yn y mis Rhagfyr ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd berthnasol.

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) - dyma gasgliad blynyddol o ddata lefel disgyblion ac ysgolion. Mae'n cael ei ddarparu gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Set Ddata Addysg wedi'i Pharu (MED) - mae hon yn cysylltu setiau data i olrhain cynnydd dysgwr drwy'r system addysg yng Nghymru. Mae'n paru cofnodion sy'n mynd yn ôl i 2010/11. Caiff ei diweddaru bob blwyddyn.

Defnyddir y CYBLD a'r MED i baru dysgwyr â'u hanes prydau ysgol am ddim yn yr ysgol uwchradd.

## Carfannau

Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â darpariaeth a gyflenwir gan ddarparwyr dysgu sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n cynnwys dysgu a ariennir yn breifat.

Mae carfan sylfaen y mesurau gweithgarwch dysgu oedolion (a gynhwysir yn y daenlen gysylltiedig) yn weithgareddau lle:

- yr oedd disgwyliad y byddent yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn academaidd
- neu y byddent yn dod i ben yn ystod y flwyddyn academaidd ond roedd disgwyl iddynt gael eu cwblhau cyn hynny.

Mae carfan sylfaenol y mesurau prentisiaeth i gyd yn rhaglenni a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn academaidd berthnasol.

Nid yw darpariaeth Dysgu Cymraeg (Cymraeg i Oedolion) wedi'i chynnwys. Cyhoeddir data Dysgu Cymraeg gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar wefan Dysgu Cymraeg.

O 2017/18 ymlaen ni chyflwynwyd gweithgareddau nad oeddent wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru i'r LLWR bellach. Nid yw hyn wedi cael effaith weladwy ar fesurau deilliannau dysgwyr.

Cafodd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru eu cynnwys o 2017/18 ymlaen.

### Mathau o ddarpariaeth dysgu oedolion

Mae tri math gwahanol o ddarpariaeth dysgu oedolion wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn:

- dysgu oedolion a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol
- dysgu oedolion a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy drefniant masnachfraint gyda sefydliad addysg bellach (colegau)
- dysgu oedolion arall a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach ac Addysg Oedolion Cymru.

Mae 'dysgu oedolion arall' yn cael ei nodi drwy ddefnyddio'r maes 'math o raglen ddysgu'. Mae hyn yn seiliedig ar y ffordd y mae'r sefydliadau eu hunain yn adroddar ddarpariaeth addysg oedolion.

### Cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant

Cyfrifir y mesurau deilliannau ar gyfer gweithgareddau dysgu fel a ganlyn:

- Cyfradd gwblhau - nifer y gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd wedi'u rhannu â nifer y gweithgareddau dysgu a ddaeth i ben (wedi'u cwblhau neu'r dysgwr wedi tynnu'n ôl).
- Cyfradd gyrhaeddiad - nifer y gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd, wedi'u rhannu â nifer y gweithgareddau dysgu asesadwy a gwblhawyd.
- Cyfradd lwyddiant - nifer y gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd wedi'u rhannu â nifer y gweithgareddau dysgu asesadwy a ddaeth i ben (wedi'u cwblhau neu'r dysgwr wedi tynnu'n ôl).

Mae gweithgareddau dysgu y bernir nad oes modd eu hasesu (h.y. nid ydynt yn arwain at ddyfarniad cysylltiedig) yn cael eu heithrio o'r enwaduron ar gyfer cyfrifo'r cyfraddau cyrhaeddiad a llwyddiant.

Mae gweithgareddau dysgu a gofnodir el rhai wedi'u trosglwyddo neu rai'n parhau wedi'u heithrio o bob cyfrifiad.

Mae gweithgareddau dysgu sydd wedi'u codio'n enerig wedi'u heithrio o'r cyfrifiadau. Mae'r rhain yn weithgareddau a gyflwynir gan y darparwr nad ydynt yn ymddangos ar gronfa ddata cymwysterau cymeradwy Cymwysterau yng Nghymru (QiW).

Cyfrifir cyfraddau llwyddiant fframweithiau prentisiaethau fel a ganlyn:

- Cyfradd lwyddiant prentisiaethau - nifer y rhaglenni dysgu lle mae'r fframwaith llawn wedi'i gwblhau wedi'i rannu â nifer y rhaglenni dysgu a ddaeth i ben.

Ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2021/22 a 2022/23, gwnaed eithriad ar gyfer dysgwyr ar brentisiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a ddechreuodd cyn Medi 2022, a oedd yn caniatáu iddynt orffen eu prentisiaeth os oeddent yn cwblhau pob rhan o'r fframwaith ac eithrio'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol (rhifedd, llythrennedd neu lythrennedd digidol). Cofnodwyd bod y fframweithiau hyn wedi'u cyflawni'n rhannol ac fe'u cyfrifwyd fel rhai a gwblhawyd yn llwyddiannus at ddibenion yr ystadegau hyn.

Mae rhaglenni dysgu a gofnodir naill ai fel rhai a drosglwyddwyd neu rai sy'n parhau dan ofal darparwr arall dysgu seiliedig ar waith wedi'u hepgor o'r cyfrifiad. Mae rhaglenni dysgu a ddaeth i ben heb eu cwblhau o fewn 8 wythnos i'w dechrau hefyd wedi'u hepgor.

Mae rhaglenni dysgu a gofnodir fel pe baent wedi dod i ben o ganlyniad i farwolaeth dysgwr neu'r dysgwr yn cael ei ddiswyddo wedi'u hepgor o'r mesur.

### Hyfforddeiaethau

Daeth hyfforddeiaethau i ben ym mis Mawrth 2022. Adroddwyd yr ystadegau olaf ar hyfforddeiaethau yn mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion, Awst 2021 i Orffennaf 2022.

Mae Twf Swyddi Cymru+ wedi cymryd lle'r rhaglen Hyfforddeiaethau flaenorol. Mae Twf Swyddi Cymru+ yn rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod pob person ifanc yn cael cynnig cyflogaeth, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu hunangyflogaeth. Cafodd pob dysgwr a oedd yn dal i fod ar raglen Hyfforddeiaeth ar ddiwedd mis Mawrth 2022 eu trosglwyddo i'r rhaglen Twf Swyddi Cymru+ newydd.

Mae deilliannau ar gyfer Twf Swyddi Cymru+ i'w gweld yn adroddiadau ystadegau Twf Swyddi Cymru+.

### Talgrynnu a hepgor

Mae'r holl ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Nid yw niferoedd sy’n llai na 5 yn cael eu cynnwys. Mae canrannau'n cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae canrannau sy'n seiliedig ar enwadur o lai na 23 yn cael eu hepgor.

Mae gwahaniaethau rhwng gwerthoedd yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio gwerthoedd heb eu talgrynnu, felly gall fod anghysondebau bach o'u cymharu â'r ffigurau wedi'u talgrynnu. Mae cyfansymiau wedi'u talgrynnu ar wahân, felly efallai na fyddant yn cyfateb yn union i swm eu rhannau a dalgrynnwyd.

## 5. Gwybodaeth Bwysig am Ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum agwedd ar ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb.

### Perthnasedd

Mae'r mesurau a nodir yn y cyhoeddiad hwn yn cael eu defnyddio'n bennaf:

- gan Lywodraeth Cymru i fonitro perfformiad darparwyr ac fel gwybodaeth sylfaenol
- gan Estyn, a all ddefnyddio data cenedlaethol fel cyd-destun wrth ystyried dyfarniadau arolygiadau ac mewn adroddiadau thematig
- gan ddarparwyr eu hunain, fel adnodd rheoli i fesur eu perfformiad eu hunain a meincnodi eu hunain yn erbyn cyfartaleddau'r sector, fel rhan o'u cylchoedd hunanasesu blynyddol.

Mae gan Lywodraeth Cymru ac Estyn ymrwymiad i rannu data i leihau biwrocratiaeth i ddarparwyr a sicrhau diffiniadau cyson o berfformiad lle bynnag y bo modd. Maent wedi cydweithio'n agos i ddatblygu'r mesurau hyn a fformat safonol ar gyfer cyflwyno data.

Defnyddir y mesurau hyn hefyd o fewn Llywodraeth Cymru a thu hwnt i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Mae'r prif ddefnyddwyr yn cynnwys:

- Gweinidogion Cymru
- Aelodau o'r Senedd a Gwasanaeth Ymchwil y Senedd; swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- adrannau llywodraethol eraill;
- myfyrwyr, ymchwilwyr, ac academyddion;
- dinasyddion unigol, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amryw o ffyrdd. Dyma ambell enghraifft:

- gwaith cefndir ac ymchwil cyffredinol;
- eu cynnwys mewn adroddiadau a briffiau;
- cynghori Gweinidogion;
- llywio a gwerthuso'r broses o lunio polisïau addysg yng Nghymru.

### Cywirdeb

Mae ystadegwyr o fewn Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â phroses o gysoni data cyn cyhoeddi'r datganiad hwn. Mae adroddiadau cysoni misol sy'n rhoi ffigurau deilliannau dysgwyr dros dro yn cael eu dosbarthu i sefydliadau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac awdurdodau lleol. Yna, edrychir ymhellach ar faterion yn ymwneud ag ansawdd data a'u datrys mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Datblygodd Llywodraeth Cymru set o egwyddorion rheoli data ar gyfer darparwyr. Roedd yr egwyddorion hyn yn rhoi eglurhad ar nifer o faterion rheoli data, yn enwedig o dan ba amgylchiadau y gellir dileu cofnodion LLWR yn ogystal â materion fel cofnodi trosglwyddiadau.

Gall dileu cofnodion LLWR a chofnodi trosglwyddiadau yn anghywir gyfrannu at is-gyfrif gweithgareddau dysgu a/neu raglenni dysgu a gwblhawyd ac felly o bosibl chwyddo'r cyfraddau llwyddiant a nodir yn yr allbwn hwn.

### Ffigur 5.1: Cyfran y rhaglenni prentisiaeth a gofnodwyd fel rhai a drosglwyddwyd, yn ôl math y raglen a blwyddyn academaidd

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prentisiaeth sylfaen | 3 | 3 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Prentisiaeth | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Prentisiaeth uwch | 4 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| **Pob prentisiaeth** | **3** | **2** | **2** | **2** | 2 | 2 |

Disgrifiad o Ffigur 5.1: Mae'r tabl yn dangos bod cyfran y prentisiaethau sylfaen a phrentisiaethau lefel 3 a gofnodwyd fel rhai a drosglwyddwyd wedi gostwng yn 2022/23 o'i gymharu â 2021/22.

Gwneir dadansoddiad bob blwyddyn i benderfynu ar effaith trosglwyddiadau. Yn 2022/23 roedd cyfran gyffredinol y prentisiaethau a gofnodwyd fel rhai a drosglwyddwyd wedi parhau'n 2%.

### Ffigur 5.2: Cyfran y rhaglenni prentisiaeth sydd wedi'u hepgor o fesurau, yn ôl y rheswm dros eu hepgor a blwyddyn academaidd

| | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2021/22 | | 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheswm dros eu hepgor** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** |
| Gadael yn gynnar | 2,435 | 12 | 3,380 | 13 | 2,975 | 10 | 2,085 | 12 | 1,830 | 10 |
| Rhaglen ddysgu wedi'i throsglwyd | 505 | 2 | 500 | 2 | 510 | 2 | 390 | 2 | 310 | 2 |
| Diswyddo dysgwr | 245 | 1 | 305 | 1 | 225 | 1 | 100 | 1 | 115 | 1 |
| Marwolaeth y dysgwr | 10 | [c] | 10 | [c] | 10 | [c] | 15 | [c] | 15 | [c] |
| Cyfanswm hepgor | 3,200 | 15 | 4,195 | 16 | 3,720 | 13 | 2,570 | 15 | 2,570 | 14 |
| Cyfanswm rhaglenni dysgu a ddaeth i ben | 20,755 | 100 | 26,365 | 100 | 28,455 | 100 | 17,280 | 100 | 17,770 | 100 |

Disgrifiad o Ffigur 5.2: Mae'r tabl yn dangos bod cyfran y rhaglenni prentisiaeth sydd wedi'u hepgor o fesurau yn ôl y rheswm dros eu hepgor wedi aros yn gyson rhwng 2016/17 a 2022/23.

Gwneir dadansoddiad bob blwyddyn i fonitro nifer yr achosion a eithrwyd o gyfrifiadau'r mesurau deilliannau i benderfynu a ydynt o fewn trothwyon derbyniol.

Mae cyfran y 'rhai sy'n gadael yn gynnar' wedi gostwng 2 bwynt canran ers 2021/22.

### Gweithgareddau dysgu na ellir eu hasesu

Mae gweithgareddau dysgu y bernir nad oes modd eu hasesu (h.y. nid ydynt yn arwain at ddyfarniad cysylltiedig) yn cael eu heithrio o'r enwaduron ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyrhaeddiad a llwyddiant.

Mae dadansoddiad o ddata dysgu oedolion yn dangos cryn amrywiaeth yng nghyfran y gweithgareddau dysgu na ellir eu hasesu ar draws y gwahanol fathau o ddarpariaeth dysgu i oedolion. Nid oedd modd asesu 64% o'r gweithgareddau dysgu a ddaeth i ben a ddarperir gan awdurdodau lleol yn uniongyrchol yn 2022/23. Mae hyn yn cymharu â 49% o weithgareddau dysgu a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach a 23% o weithgareddau dysgu a ddarperir gan awdurdodau lleol trwy gytundeb masnachfraint gyda sefydliad AB.

Mae gwaith dadansoddi blaenorol gan awdurdod lleol wedi nodi bod cyfran y gweithgareddau na ellir eu hasesu yn amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr. Mae hyn yn awgrymu bod darpariaeth na ellir ei hasesu yn cael ei chofnodi'n anghyson a thrwy hynny o bosibl yn effeithio ar gyfraddau cyrhaeddiad a llwyddiant. Mae gweithgareddau dysgu a nodwyd fel rhai na ellir eu hasesu pan y'u cyflwynir, ond a nodwyd wedyn gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n gysylltiedig â nodau dysgu asesadwy, wedi'u cynnwys wrth gyfrifo cyfraddau cyrhaeddiad a llwyddiant.

## Diwygio

Mae rhai o'r ffigurau ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 wedi'u diwygio. Cafodd gweithgareddau dysgu oedolion a gyflwynwyd yn uniongyrchol gan Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych eu hepgor yn anghywir o adroddiad y llynedd. Mae newidiadau wedi'u marcio â (r). Nid oedd y cyfraddau cwblhau a llwyddiant cyffredinol ar gyfer gweithgareddau dysgu oedolion wedi newid.

## Hanes Prydau Ysgol am Ddim

Ceir hanes y dysgwr o ran cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim drwy baru cofnodion prentisiaeth a dysgu oedolion â chofnodion ysgol hanesyddol. Mae hyn yn defnyddio'r Set Ddata Addysg wedi'i Pharu. Mae'r Set Ddata Addysg wedi'i Pharu yn cysylltu setiau data i olrhain taith dysgwyr drwy'r system addysg yng Nghymru. Mae'n cysylltu cofnodion sy'n mynd yn ôl i 2010/11. Ni ellir paru cofnodion pob dysgwr. Roedd y gyfradd baru yn well i brentisiaid iau.

Nid yw hanes dysgwr o ran cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim ar gael i ddysgwyr a aeth i'r ysgol cyn 2010/11 neu a aeth i'r ysgol y tu allan i Gymru.

### Ffigur 5.3 Cyfran y prentisiaid yr oedd eu hanes o ran prydau ysgol am ddim yn ystod yr ysgol uwchradd yn hysbys, yn ôl blwyddyn academaidd

| 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| 38% | 32% | 33% | 45% | 49% |

Disgrifiad o Ffigur 5.3: Mae'r tabl yn dangos bod y gyfradd baru'n gwella dros amser. Roedd yn 49% yn 2022/23.

## Amseroldeb a Phrydlondeb

Mae'r amserlen flynyddol ar gyfer cynhyrchu data deilliannau dysgwyr terfynol yn cydbwyso amseroldeb yn erbyn yr angen am ansawdd data cywir i fod yn sail i feincnodau cadarn yn y sector. Daw'r ystadegau o gronfa ddata wedi'i seilio ar yr LLWR ym mis Rhagfyr, (yn flaenorol, ym mis Chwefror tan 2015/16 ar

gyfer dysgu oedolion a hyd at 2016/17 ar gyfer dysgu seiliedig ar waith). Yna, caiff yr adroddiad hwn ei lunio a'i gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

### Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw ac yna'n cael ei gyhoeddi yn yr adran Ystadegau ac Ymchwil ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddir y datganiad fel PDF (PDF/A) ar fformat hygyrch. Mae'r data yn yr adroddiad ar gael yn StatsCymru neu mewn taenlen gysylltiedig sydd ar gael ar fformat data agored (ODS).

### Cymaroldeb a chysondeb

Oherwydd y newidiadau yn y ffordd y dyfarnwyd graddau yn 2020 a'r tarfu ar ddysgu a achoswyd gan y pandemig, ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru unrhyw rai o'i mesurau perfformiad arferol ar gyfer ysgolion na dysgu ôl-16 yn 2019/20 nac yn 2020/21. Yn hytrach, cynhyrchwyd adroddiadau arbennig ynghylch Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws. Mae'r ystadegau hynny'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio methodolegau gwahanol ac ni ellir eu cymharu â'r adroddiad hwn.

Gellir cael mynediad at ddatganiadau blaenorol ar dudalen mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a thudalen dysgu cymunedol oedolion ar llyw.cymru.

Mae datganiadau cyn 2018/19 yn cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth addysg bellach. Mae hyn bellach wedi'i ddisodli gan y mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16. * Nodwch: ni ellir cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol.

Yn 2015/16 cyhoeddwyd canlyniadau Dysgu Seiliedig ar Waith ar wahân i ganlyniadau dysgu oedolion oherwydd gwahaniaethau yn yr amserlenni.

Gellir dod o hyd i ddata cyfatebol ar ganlyniadau dysgwyr ôl-16 yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon trwy ddefnyddio'r dolenni hyn:

Skills Funding Agency / Department for Education - Statistics: further education and skills

Scottish Funding Council - Staff and Student Performance Indicators for FE Colleges

Department for the Economy Northern Ireland - Further Education Performance Statistics

Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau mewn methodoleg a dulliau casglu data, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol â'r ffigurau yn y datganiad hwn.

Mae ystadegau ar addysg bellach a'r chweched dosbarth mewn ysgolion ar gael yn yr adroddiadau mesurau perfformiad cyson ar gyfer adroddiadau dysgu ôl-16 . Mae'r ystadegau hyn wedi'u cynllunio i gymharu dysgwyr ar draws gwahanol leoliadau addysg, ac i roi darlun o daith gyfan y dysgwr. Nid ellir cymharu'r fethodoleg yn uniongyrchol â'r ystadegau yn yr erthygl hon.

## 6. Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 y DU, sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt ar ôl i gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU eu hasesu. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfiaeth â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at drafodaethau a phenderfyniadau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu a yw'r ystadegau hyn yn parhau i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn ddi-oed. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei ddiddymu ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a'i adfer pan fodlonir y safonau eto.

Cadarnhawyd dynodiad yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Gorffennaf 2011 yn dilyn asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer.

## 7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Amcanion y nodau hyn yw sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal, yn llewyrchus, yn gydnerth, yn iachach ac yn gyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu defnyddio at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Cafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn eu gosod gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Defnyddiwch y ddolen i gael rhagor o wybodaeth ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a ellid eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a chynlluniau llesiant lleol.

## 8. Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned

## 9. Diweddariad nesaf

Mis Mawrth 2025 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24. Disgwylir i'r diweddariad nesaf i'r datganiad hwn gael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Bydd y Comisiwn yn gorff hyd braich newydd a fydd yn gyfrifol am ariannu a goruchwylio addysg ôl-16 ac ymchwil o fis Awst 2024.

## 10. Mae arnom eisiau eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. E-bostiwch eich adborth i: ystadegauaddysgol16@llyw.cymru

## 11. Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0